


Blwyddyn 6
Mr Dafydd
Cogydd
Chwaraewr rygbi
Chwaraewr Peldroed
Animeiddiwr
Youtuber
youtuber
Athrawes
Rhedeg Caffi bowlio
youtuber
Cantores
Chwaraewr rygbi proffesiynol
Cogydd
youtuber
Chwaraewr rygbi
youtuber
Cantores
Youtuber
Chwaraewr rygbi
Youtuber



# Microlysiau: Bwyd y Dyfodol

"Pam mae microlysiau a ffotosynthesis yn hanfodol ar gyfer iechyd pobl a dyfodol y blaned?"

Wythnos 1
02.09.24

**Rwy'n gyfathrebwr...**
Rwy'n ymatebol ac yn barchus.

**Rwy'n gydweithiwr...**
Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.

Wythnos yma, buon ni'n casglu llawer o lysiau a ffrwythau o'r ardd er mwyn eu gwerthu yn y Bocs Bwyd Blasus. Hefyd buon ni'n trio rhai ohonyn nhw yn y dosbarth. Roedd rhai heb flasu melon yn eu bywydau!
Gaethon ni gyfle i edrych tu fewn i'r Bocs Bwyd Blasus a thrafod gyda Mrs Humble sut fydd blwyddyn 6 yn cynorthwyo yn y siop.







Rydyn ni'n helpu i farchnata y bwydydd sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys creu posteri ac hefyd denu rhieni i mewn i'r siop i brynu y prydau parod.



Rydyn ni'n helpu Mrs Humble yn y Bocs Bwyd Blasus trwy gwerthu llysiau a ffrwythau. (Stefan)




Wythnos
2+3
09.09.24

**Rwy'n feddyliwr...**



Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.

**Rwy'n ymchwiliwr...**



Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.

Mwynheais y batio oherwydd roeddwn i'n ceisio taro'r bel dros y ffens. (Thomas)

Rydyn ni wedi bod yn cael gwersi criced gyda Jeremy. Mae wedi bod yn dysgu llawer o sgiliau newydd i ni fel sgiliau bowlio, dal a batio.





















Ni'n dysgu pethau newydd bob tro rydyn ni'n gwneud gwers fyw ar-lein e.e. Animeiddio cymeriadau. (Lily)



Hoffais y gwersi criced oherwydd ei fod yn brofiad newydd. (Llywelyn)





Buon ni'n cymryd rhan mewn sesiwn ar-lein gyda Adobe Creative Cloud. Roedd rhaid i ni ddilyn cyfarwyddiadau ar gyfer creu posteri 'Back to School'.



Wythnos 4
23.09.24

Rwy'n gyfathrebwr...

Rwy'n ymatebol ac yn barchus.

Roedd e'n hoffi hwylio, cerdded a chwarae'r ffidl. (Lily)



Cafodd ei eni yn Ulm, Yr Almaen. (Emilia)

Rydyn ni wedi bod yn gwneud llawer o waith ymchwil i fywyd Albert Einstein oherwydd ein bod yn ysgrifennu dwyn i gof am ei fywyd. Rydym wedi dysgu nifer o ffeithiau newydd am ei fywyd.



Dysgon ni bod Albert Einstein yn enwog am ei edrychiad doniol - mwstas a gwallt gwyllt. (Cai)

Eglwys Llandyri
Aeth blynyddoedd 2-6 i Eglwys Llandyri i gymryd rhan mewn gwasanaeth diolchgarwch.



Buon ni'n canu emynau a gwneud darlleniadau yn yr Eglwys (Niall)









Buon ni'n casglu mwy o lysiau a ffrwythau ar gyfer y Bocs Bwyd Blasus. Roedd rhai o'r llysiau yn enfawr!

Wythnos 5
30.09.24


# Gwasanaeth Blwyddyn 6

Roedd wythnos yma'n gyffrous oherwydd ein bod ni wedi cael cyfle i berfformio o flaen ein rhieni a'r Ysgol gyfan. Roedd ein gwasanaeth diolchgarwch ni ar ddydd Iau. Cafodd bawb gyfle i siarad yn unigol yn y gwasanaeth. Roedden ni hefyd yn canu caneuon. Ffocws y gwasanaeth oedd i fod yn ddiolchgar am bopeth sydd gyda ni a hefyd sut allwn ni helpu eraill sydd yn llai ffodus.




Rydw i wrth fy modd yn perfformio ar lwyfan. (Steffan)







Roedd rhaid i bawb ddysgu darnau eu hunain i adrodd yn y gwasanaeth.






Rydyn ni wedi bod yn helpu'r gymuned trwy werthu bwyd yn y Bocs Bwyd Blasus




Mae'r cynhaeaf yn ein dysgu pa mor bwysig yw hi i rannu gyda eraill.










Buon ni'n esbonio i weddill yr ysgol a'r rhieni pa mor bwysig yw'r adeg yma o'r flwyddyn.

Wythnos 6
07.10.24

## Cystadleuaeth Pel Droed

Buodd tim pel droed blwyddyn 6 yn cystadlu yng nghystadleuaeth pel droed yr Ysgol. Er ein bod ni wedi colli y gemau, roedd pawb wedi mwynhau a chydweithio'n dda gyda'n gilydd.






Dangosodd pawb agwedd positif wrth chwarae fel tim.

Mwynheais chwarae pel droed i'r ysgol oherwydd roedd hi'n brofiad newydd cael chwarae yn gol. (Jenson)






Rydyn ni wedi bod yn ymarfer yr wyddor. Roedd rhaid trefnu'r wyddor a rhoi geiriau yn eu trefn cywir.




Buon ni'n dathlu Diwrnod Shwmae yn yr ysgol



Dyma ni'n helpu yn y Bocs Bwyd Blasus. Roedd llawer o lysiau ffres gyda ni i werthu.





Wythnos 7
14.10.24

**Rwy'n feddyliwr...**

Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.

Celf Kyffin Williams

Buon ni'n arbrofi gyda gwahanol technegau er mwyn gallu ail greu rhai o luniau Kyffin Williams.


Buon ni'n defnyddio siwgr, powdwr golchi a blawd. Roedd pob un ohonyn nhw yn rhoi gwead gwahanol.

Roedd pawb yn gytun ar y diwedd bod y blawd yn creu'r gwead gorau pan yn ceisio efelychu gwaith yr artist.




















Roedd llawer o'r blawd dros y llawr!

Buon ni'n gwneud lluniau Kyffin Williams. Defnyddiais i blawd i wneud fy llun. Rhoies i gormod o flawd yn y cymysgiad felly roedd e ychydig yn sych. (Thomas)

Mwynheais y dasg hon oherwydd nad oeddwn wedi defnyddio'r offer o'r blaen. (Bailey)

Wythnos 8
21.10.24



Ymweiad wrth yr Heddlu

Daeth yr heddlu i siarad gyda ni am ddiogelwch ar noson tan gwyllt.
Mae'n rhaid sicrhau eich bod yn gwisgo'r dillad cywir a gyda oedolion bob tro pan yn gwylio tan gwyllt. .

Hefyd buon nhw'n trafod pwysigrwydd bod yn ddiogel yn ystod 'Calan Gaeaf. Mae'n bwysig peidio mynd i gartrefi hen bobl i gnocio neu edrych am arwyddion ar gartrefi pobl sydd yn dweud ein bod yn gallu neu ddim gallu mynd i gnocio. '







Rhaid bod yn gwrtais i bawb wrth fynd o gwmpas y pentref.




Os nad oes addurniadau ar y cartref, mae'n bwysig i beidio cnocio ar y drws. (Gruff)

Wythnos 9
04.11.24

**Rwy'n feddyliwr...**

Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.



Dydd y Cofio
Buon ni'n gwneud celf Dydd y Cofio yn y dosbarth. Un tasg oedd i greu amlinelliad ar garden du a wedyn chreu cefndir a'i ludo. Roedd rhaid defnyddio ton a chymysgu lliwiau er mwyn cael y lliw cywir yn y cefndir.


Roedd hefyd angen i ni wylio fideo Adobe i greu graffeg Dydd y Cofio. Dysgon ni llawer o sgiliau digidol newydd fel sut i drefnu haenau ar y graffeg.





Cystadleuaeth rygbi'r Urdd
Bu blwyddyn 6 yng nghystadleuaeth rygbi'r Urdd yn Rhydaman. Enillodd y tim sawl gem a dangosodd pawb agwedd bositif a sgiliau cydweithio arbennig.







Roedd rhaid i ni greu poster ar Adobe. Dysgon ni sut i wneud lluniau yn fwy tryloyw.



Wythnos 10
11.11.24








Buon ni'n dysgu sgiliau achub bywyd. Hefyd, gaethon ni'n cyfle i fynd mewn i'r ambiwlans a gofyn cwestiynau gwahanol i'r ymatebwyr cyntaf.















Fy hoff ran oedd dysgu sgiliau achub bywyd. (Harley)



Buon ni'n dysgu am hawliau disgyblion yn ystod y gwasanaeth.









Doedd e ddim yn hawdd! (Logan)

Wythnos 11
18.11.24




Rwy'n hunan-rheolwr...

Rwy'n wydn ac yn fyfyriol.

Rwy'n gydweithiwr...


Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.



Daeth PC Ali i mewn i ddosbarth blwyddyn 6 er mwyn trafod sut dylai pawb fod yn ymddwyn allan ar y stryd.





Mae'n bwysig ein bod ni yn meddwl yn gyntaf cyn gwneud penderfyniadau yn y pentref.

Ges i fedal am berfformio mor dda yn y rygbi tag. (Thomas)



Rwy'n gyfathrebwr...

Rwy'n ymatebol ac yn barchus.



Buon ni'n chwarae rygbi tag yn Parc y Scarlets. Roedd pawb yn cydweithio gyda'n gilydd.



Mae'r ysgol wedi ennill gwobr oherwydd ein bod wedi helpu llawer o bobl o'r gymuned.

Wythnos 12
25.11.24










Rydym ni wedi bod yn dysgu am batrymau sillafu gwahanol yn y sesiynau carwsel darllen. Roedd rhaid i ni ddefnyddio'r cardiau i greu gymaint o eiriau a phosib.







Buon ni'n dysgu sut mae ffotosynthesis yn effeithio plant, ffermwyr ac hefyd gwenyn. Wedyn buon ni'n creu 'collage' i esbonio'r effaith pe bai ffotosynthesis ddim yn digwydd.






Dyma ni'n dathlu diwrnod Shwmae. Buon ni'n gwneud gweithgareddau gwahanol ac annog pobl i siarad Cymraeg



Wythnos 13
02.12.24



Mae'r tlws yn teithio o amgylch y byd i gyd cyn mynd yn ôl i Loegr ar ddiwedd y tymor. (Cai)





Rydym ni wedi bod yn brysur iawn yn ymarfer ar gyfer y gyngerdd Nadolig.











Bu'r llysgenhadon chwaraeon yn ffodus i gael mynd i Llyfrgell Llanelli i gael gweld tlws Premier League y dynion a'r ,menywod. Dysgon nhw am y tlws ei hun ac hefyd cyfle i holi cwestiynau.











Aethon ni i Lyfrgell Llanelli i weld tlws y Premier League. Hefyd buon ni'n darllen llyfrau. (Llywelyn)

Wythnos
14 + 15
09.12.24











Rwy'n ymchwiliwr...

Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.







Buon ni'n dysgu sut i drwsio beiciau yn yr ysgol wythnos yma. Daeth Roger o 'Sustrans' i helpu ni gyda'n beiciau. Roedd rhaid defnyddio teclynnau gwahanol er mwyn sicrhau bod ein beiciau yn ddiogel.

Buon ni'n trafod pwysigrwydd dod i'r ysgol yn y sesiwn yma. Roedd rhaid i ni roi llawer o bethau gwahanol yn eu trefn o'r pwysicaf i'r lleiaf pwysig.
(Lily)

Rwy'n gydweithiwr...

Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.







Mwynheais i ddysgu sut i drwsio teiar beic.
(Rowena)













Aeth y dosbarth i Ganolfan Sgiliau ar drip. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn.

# Tymor 1
# ‘Ydy










# Tymor 2
# Llais a Chymunedau Coll

"Sut mae cymgymeriadau pobl yn gallu arwain at drychunebau, a beth gallwn ni ddysgu o'r gorffennol i'w hosgoi."

Wythnos
1+2
06.01.25

**Rwy'n feddyliwr...**

Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.

**Rwy'n ymchwiliwr...**

Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.

Teitl y thema newydd yw 'Llais a Chymunedau Coll'. Rydym wedi dechrau dysgu am chwedl Cantre'r Gwaelod. Hefyd buodd Technocamps allan gyda ni. Buon ni'n creu gem newydd drwy godio ar raglen Scratch.









Mwynheais addasu y cymeriadau ar y gem. (Thomas)

Roeddwn i'n hoffi gwrando a dysgu sut i greu gemau a ychwanegu syniadau ein hunain. (Stefan)

Mwynheais godio ar scratch wrth greu gem newydd. (Harley)







Dysgais bod angen bloc 'forever' i gadw'r cod i fynd am amser. (Charlie)

Roedd y profiad yn dda oherwydd fy mod wedi dysgu llawer o bethau newydd. (Llywelyn)

Wythnos 3
20.01.25

**Rwy'n gyfathrebwr...**

Rwy'n ymatebol ac yn barchus.

Daeth Miss Davies i'r ysgol i wneud gweithdy barddoniaeth gyda'r dosbarth. Roedd nifer o dasgau hwyl gyda Miss Davies i ni i helpu ni ysgrifennu cerdd ein hunain.



**Rwy'n feddyliwr...**

Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.









Dyma'r tîm buodd yn cymryd rhan mewn cwis gyda'r menter iaith. Roedd 'Cwis Dim Clem' yn cynnwys cwestiynau am enwogion Cymru, ardaloedd o amgylch Cymru ac hefyd yr anthem cenedlaethol.





Buon ni'n cymryd rhan yng nghystadleuaeth pel rwyd cymysg yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Llanelli. Chwaraeodd y tîm yn dda iawn.



**Rwy'n gydweithiwr...**

Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.

Wythnos 4+5
27.01.25

**Rwy'n ymchwiliwr...**
Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.

**Rwy'n feddyliwr...**
Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.

**Rwy'n hunan-rheolwr...**
Rwy'n wydn ac yn fyfyriol.

**Rwy'n gyfathrebwr...**
Rwy'n ymatebol ac yn barchus.

## Trip i Langrannog


Aeth y dosbarth i Langrannog am wythnos. Roedd y trip yn un anhygoel gyda pawb yn mwynhau'r amrywiaeth o weithgareddau. Hefyd, cafodd llawer brofiadau hollol newydd fel marchogaeth ceffylau, beiciau modur neu gwibgartio.





Buon ni'n brwsio Cledwyn!











Roedd pawb yn gwneud ymdrech i siarad Cymraeg ar y trip.



Un o fy hoff weithgareddau oedd neidio ar y trampolîn.



Roedd y beiciau modur yn llawer o hwyl!



Buon ni'n dringo rhaffau uchel a gweithio fel tim.





Roedd hefyd gweithgareddau nos fel cwis, noson ffilm, disco ac hefyd 'Just Dance'.


Wythnos 8





**Rwy'n gyfathrebwr...**

Rwy'n ymatebol ac yn barchus.





**Rwy'n feddyliwr...**

Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.

Gaethon ni sesiwn creu cerdd yn yr Ysgol. Roedd angen i ni feddwl am nifer o eirfa newydd er mwyn creu cerdd fel dosbarth.

Dysgon ni am ansoddeiriau, cyffelybiaeth a chymariaethau.



Rydym ni wedi bod yn coginio yr Ysgol gyda Mrs Davies a Mrs Evans.

**Rwy'n gydweithiwr...**

Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.







Wythnos 9

Dyma lun o gystadleuaeth tyfu cennin blynyddol yr Ysgol. Roedd llawer o rhai mawr iawn yna!












Dyma rhai ohonom ni yn chwarae yng nghystadleuaeth Pel droed yr Urdd. Profiad newydd i ni gyd!





Bu rhai ohono ni'n cystadlu yn y Steddfod Cylch. Buon ni'n canu a llefaru. Gaethon ni drydydd yn y llefaru.






Wythnos
10+11

Buodd CYCA yn dysgu ni bod rhaid gofyn caniatad cyn tynnu lluniau gyda'n ffrindiau.

Hefyd gaethon ni llawer o hwyl yn mynd o gwmpas yr Ysgol yn tynnu lluniau a fideos.



**Rwy'n gyfathrebwr...**


Rwy'n ymatebol ac yn barchus.

Rydym ni wedi bod yn dysgu am ofyn caniatâd wrth dynnu lluniau

**Rwy'n ymchwiliwr...**

Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.





Dydy pawb ddim eisiau bod mewn fideos – felly gofynnwch am ganiatad

**Rwy'n gydweithiwr...**

Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.

Rhaid gofyn i ffrind os maent eisiau bod yn y fideo cyn gwneud fideo doniol







**Rwy'n feddyliwr...**

Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.



**Rwy'n hunan-rheolwr...**

Rwy'n wydn ac yn fyfyriol.

# Wythnos 12



Rydym ni wedi bod yn dysgu mwy am wytnwch digidol

Rwy'n feddyliwr...

Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.





Mae sesiynau CYCA yn hwyl oherwydd ein bod ni'n cael cyfle i chwarae gemau ar ddiwedd pob sesiwn.

Rwy'n gyfathrebwr...

Rwy'n ymatebol ac yn barchus.







Daeth Ficer Suzy i'n gweld ni yn yr Ysgol. Aethon ni i gyd i lawr i'r neuadd i gael gwasanaeth Pasg. Buodd y Ficer yn adrodd stori i ni a buon ni'n dysgu a chanu caneuon newydd.










# Tymor 3
# Chwilio'r Chwedlau

Wythnos 1+2



Dyma rhai ohonom ni'n canu i gor yr ysgol.



Buon ni'n seiclo dros y pythefnos diwethaf. Roedd rhaid i ni basio lefel 1 er mwyn gallu mynd allan ar y brif ffordd i gwblhau tystysgrif lefel 2. Roedd llawer o reolau newydd doeddem ni ddim yn gwybod allan ar y brif ffordd – fel sut i ddefnyddio'n breichiau i ddangos i ba gyfeiriad ni'n mynd.





Gaethon ni'r cyfle i weld cwpan enillodd Club Pel Droed Llanelli am gael dyrchafiad nol i brif gynghrair Cymru.



Daeth ysgolion Ffwrnes, Dewi Sant a Llangennech draw i chwarae pel droed a phel rwyd yn Ysgol Trimsaran. Cafodd pawb llawer o hwyl!



Rwy'n gydweithiwr...

Wythnos 3







Gaethon ni sesiwn rygbi gyda dyn o'r Scarlets. Dysgodd e ni sut i neud sgiliau newydd rygbi

Daeth y Scarlets allan i gynnal sesiwn rygbi gyda Blwyddyn 6. Dysgon ni llawer o sgiliau newydd ac roedd pawb wrth eu boddau yn chwarae gemau ac yn rasio.

Hefyd bu PC Ali allan yn siarad gyda'r dosbarth.

Aeth criw ohono ni i gystadleuaeth athletau yr Urdd. Roedd rhaid rhedeg ras 80m, 600m, taflu 'shot put' a naid hir. Hefyd roedd ras gyfnewid.







Buodd PC Ali yn trafod cyffuriau a sut i fod yn fwy diogel yn y gymuned.














Buon ni'n cystadlu yn erbyn ysgolion arall. Cafodd Thomas 4ydd yn y 600m ac Emilia 3ydd yn yr 80m.


# Wythnos 4



Buodd rhai o ddisgyblion blwyddyn 6 i Lanelli i werthu cardiau fel rhan o fenter masnachwyr ifanc. Roedd rhaid i ni benderfynu beth i werthu a phenderfynu ar brisiau a logo ar gyfer y cwmni. Gwerthon ni bron popeth gan wneud elw o dros £100.

Roedd mabolgampau olaf blwyddyn 6 wythnos yma. Enillodd Glyndwr y diwrnod.

**Rwy'n gydweithiwr...**



Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.

Gwerthon ni bron pob carden. Roedd hi'n ddiddorol gweithio gyda arian a meddwl am brisiau ar gyfer y cardiau

Roedd y mabolgampau yn llawer o hwyl. Enillodd Glyndwr y flwyddyn hon.










**Rwy'n ymchwiliwr...**




Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.









Buon ni'n gwerthu cardiau i bobl yn Farchnad Llanelli. Gwerthon ni llawer.

Wythnos 5+6













Buon ni'n gwneud sesiynau gyda CYCA. Buon ni'n chwarae blooket gyda nhw. Roedd yn llawer o hwyl.

Mae cwmni CYCA wedi bod yn dod allan dros yr wythnosau diwethaf i siarad gyda'r dosbarth am wytnwch ar lein.


Rydym wedi bod yn chwarae lot o gemau ac yn trafod llawer gyda'n gilydd.














Dysgon ni sut i fod yn ddiogel ar y rhyngrwyd.

Hefyd, dysgon ni beth odd 'hacio' a sut mae pobl yn ceisio dwyn eich gwybodaeth personol.



# Wythnos 7

Daeth menyw o'r frigad dan allan i siarad gyda ni am sut i fod yn ddigoel yn ein cartrefi. Buodd hi'n siarad gyda ni am ein peiriannau electronig a faint ohonyn nhw rydyn ni fod rhoi yn y wal.

Hefyd gaethon ni cwis ar faint o bwer sydd gan wahanol offer electronig. Roedd rhai yn ein synnu ni!








Mae theatr Selwyn Samuel yn enfawr.

**Rwy'n gyfathrebwr...**

Rwy'n ymatebol ac yn barchus.






**Rwy'n hunan-rheolwr...**

Rwy'n wydn ac yn fyfyriol.

Dysgon ni bod angen osgoi rhoi gormod o bethau electronig mewn un plwg yn y wal.

Rydym ni wedi bod yn ymarfer yn galed ar gyfer y sioe.



**Rwy'n feddyliwr...**



Rydyn ni wedi bod yn brysur iawn yn ymarfer ar gyfer sioe 'Chwilio'r Chwedlau'.

Mae angen llawer o ymarfer ar y canu a'r action i wneud yn siwr bod popeth yn berffaith.



Wythnos 8+9





Roeddwn i'n nerfus ac yn crynu. Ond ar ddiwedd y perfformiad, roeddwn mor falch fy mod wedi bod yn rhan o'r perfformiad.

Buon ni'n actio a pherfformio fel ein bod ar y 'West End'. Roedd e'n llawer o hwyl.









Roedd sioe 'Chwilio'r Chwedlau' ar nos Fawrth 1af o Orffennaf. Roedd dros 400 o bobl yn gwylio'r sioe yn y Selwyn Samuel yn Llanelli.

Roedd pawb wedi dysgu eu geiriau yn arbennig a phawb wedi canu a dawnsio'n wych.



Mwynheais i ddawnsio i gan marchogion Arthur! Roedd pawb yn chwerthin ac yn mwynhau.



# Wythnos 10

Aethon ni i'r traeth yn Pembre ar ein trip blynyddol olaf. Roedd hi'n boeth iawn gyda sawl twll wedi cael ei greu yn y tywod. Cafodd blwyddyn 6 y cyfle i fynd i mewn i'r mor. Roedd pawb wrth eu boddau yn chwarae a rhedeg ar y traeth gyda ein ffrindiau.

Hefyd buon ni'n perfformio ein Gwasanaeth Ymadawyr. Roedd pawb wedi dysgu eu geiriau ar gyfer action a chanu. Mae pawb yn drist i adael yr Ysgol ond yn edrych ymlaen i flwyddyn 7!

Mwynheais i cael fy nghladdu yn y tywod!!



Gwelais i sglefren for ar y traeth.




Roeddwn i wrth fy modd yn creu mynydd allan o'r tywod gyda fy ffrindiau.





Rwy'n gydweithiwr...

Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.











Buon ni'n creu pont allan o'r tywod. Roedd yn wych cyn iddo cael ei ddymchwel!.

Rwy'n gyfathrebwr...



Wythnos 11

# Fideo Ymadawyr

